www.cffi-cymru.org.uk



# Adroddiad Blynyddol CFfI Cymru Wales YFC Annual Report 2022-2023

# Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
# Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023

# Wales Federation of Young Farmers' Clubs
# Annual Report 2022 - 2023


1 - 2: Adroddiad Cadeirydd y Cyngor

3-4: Chair of Council's Report

5: Cyllid & Rheoli

6: Finance & Management

7: Cystadlaethau

8: Competitions

9-10: Y Sioe Frenhinol / Royal Welsh Show

11: Materion Gwledig

12: Rural Affairs

13: Digwyddiadau & Marchnata

14: Events & Marketing

15-16: Rhyngwladol

17-18: International

19: Aelod Iau y Flwyddyn

20: Junior Member of the Year

21: Aelod Hŷn y Flwyddyn

22: Senior Member of the Year

23: Personel a Thal

24: Personnel and Remuneration

25-26: Ystadegau Aelodau / Membership Statistics 2022-2023

27: Grŵp Adeiladu

28: Building Group

29-30: Adroddiadau Ariannol / Financial Reporting

31: Fforwm Ieuenctid / Youth Forum

32: Noddwyr y Ffederasiwn | Federation Sponsors

33: Cysylltwch a'ch Ffederasiwn Sirol | Contact Your County Federation


*Dilynwch ni am y newyddion diweddaraf! Follow us for updates!*

CFfI Cymru Wales YFC

@CFfI Cymru
@Wales YFC

@cfficymruwalesyfc

@cfficymruwalesyfc

cfficymru-yfc

CFfI Cymru Wales YFC

**Llywydd y Mudiad**
Chris Lewis

**Cadeirydd y Cyngor**
Hefin Evans

**Is-Gadeirydd y Cyngor**
Rhys Richards

## Tîm Staff CFfI Cymru

**Prif Weithredwr**
Mared Rand Jones

**Rheolwr Gweithrediadau**
Claire Powell

**Swyddog Gweithrediadau**
(Cystadlaethau & Rhyngwladol)
Rhianwen Jones

**Swyddog Gweithrediadau**
(Datblygiad Cymraeg a Gwaith Ieuenctid)
Nia Haf

**Swyddog Gweithrediadau**
(Materion Gwledig)
Lee Pritchard

**Swyddog Gweithrediadau**
(Digwyddiadau a Marchnata)
Carys Storer Jones

**Gweinyddwraig**
Megan Jones
Sally Griffiths (Dros dro)

**Gofalwraig Canolfan CFfI Cymru**
Ann Hammonds

## Rolau Pwyllgor

**Cadeirydd Cyllid a Rheoli**
Iwan Meirion
**Is-Gadeirydd Cyllid a Rheoli**
Hefin Evans

**Cadeirydd Cystadlaethau**
Sioned Davies
**Is-Gadeirydd Cystadlaethau**
Delun Evans

**Cadeirydd Materion Gwledig**
Dewi Davies
**Is-Gadeirydd Materion Gwledig**
Angharad Thomas

**Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata**
Elliw Griffith
**Is-Gadeirydd Digwyddiadau a Marchnata**
Caryl Jones

**Cadeirydd Rhyngwladol**
Nerys Lewis
**Is-Gadeirydd Rhyngwladol**
Caitlin Harley

**Cadeirydd Fforwm Ieuenctid**
Cerys Harts
**Is-Gadeirydd Fforwm Ieuenctid**
Gethin Lewis

**Aelod Hŷn y Flwyddyn**
Endaf Griffiths

**Aelod Iau y Flwyddyn**
Elain Iorwerth

# Wales Federation of Young Farmers' Clubs Annual Report 2022 - 2023

**Federation President**
Chris Lewis

**Chairman of Council**
Hefin Evans

**Vice Chairman of Council**
Rhys Richards

## Wales YFC Staff Team

**Chief Executive Officer**
Mared Rand Jones

**Operations Manager**
Claire Powell

**Operations Officer**
(Competitions & International)
Rhianwen Jones

**Operations Officer**
(Welsh Development & Youth Work)
Nia Haf

**Operations Officer**
(Rural Affairs)
Lee Pritchard

**Operations Officer**
(Events & Marketing)
Carys Storer Jones

**Administrators**
Megan Jones
Sally Griffiths (Temporary)

**YFC Centre Cleaner**
Ann Hammonds

## Committee Roles

**Finance & Management Chair**
Iwan Meirion
**Finance & Management Vice Chair**
Hefin Evans

**Competitions Chair**
Sioned Davies
**Competitions Vice Chair**
Delun Evans

**Rural Affairs Chair**
Dewi Davies
**Rural Affairs Vice Chair**
Angharad Thomas

**Events & Marketing Chair**
Elliw Griffith
**Events & Marketing Vice Chair**
Caryl Jones

**International Chair**
Nerys Lewis
**International Vice Chair**
Caitlin Harley

**Youth Forum Chair**
Cerys Harts
**Youth Forum Vice Chair**
Gethin Lewis

**Senior Member of the Year**
Endaf Griffiths

**Junior Member of the Year**
Elain Iorwerth

## Adroddiad Cadeirydd y Cyngor



Hefin Evans

Ysgrifennaf yr adroddiad hwn o'r flwyddyn ddiwethaf gydag atgofion melys byddaf yn eu trysori. Nid oedd dechrau hawdd i'r flwyddyn gyda siom y Pentref Ieuenctid llynedd dros ein pennau a chyfarfodydd niferus rhwng aelodau cyngor i drafod canlyniadau'r digwyddiad. Rydym yn aelodau sydd gyda barn am beth ddylwn wneud ond daeth y penderfyniad lawr i'r ffaith nad oedd yn ariannol hyfyw i ni barhau. Wrth i ni basio i ddiddymu'r Pentref Ieuenctid, byddwn ni fel aelodau yn trysori'r atgofion melys wnaethom wrth aros yno yn ystod wythnos y sioe.

Mae tîm staff llawn gennym bellach yn y swyddfa yn Llanelwedd gydag apwyntiad Miss Mared Rand Jones fel ein Prif Weithredwr newydd, ers mis Ionawr. Mae wedi dod ag egni newydd a brwdfrydedd i'r rôl. Rhaid hefyd llongyfarch a diolch yn fawr i Claire Powell am gymryd yr awenau fel Prif Weithredwr dros dro tan i Mared ddechrau, mi wnaeth hi arwain y CFfI yn wych.

Mae'r is-bwyllgorau niferus sydd gennym yn CFfI wedi rhoi platfform grêt i'n haelodau i rannu argymhellion a syniadau. Gan ddechrau gyda Materion Gwledig, cynhaliwyd taith astudio i Ogledd Lloegr i weld nifer o ffermydd a busnesau. Wrth symud i'r flwyddyn newydd, cynhaliwyd ein cynhadledd flynyddol i Plas Isaf yng Nghorwen ar y thema llwybrau ffermio. Cafwyd siaradwyr arbennig gyda Nigel Owens MBE, Llyr Derwydd, Rhydian Glyn a Rebecca Wilson a grwpiau prynhawn gyda DPJ a thaith fferm ystâd Rhug. Rhaid estyn ein diolch eto i CCF am noddi ac i Will Pritchard am arwain y diwrnod. Mae'r pwyllgor hefyd wedi bod yn brysur yn lansio dwy gystadleuaeth newydd, y Gystadleuaeth Prif Gynhyrchwr Porc a'r Gystadleuaeth Arloesi Busnes Fferm gyda Rural Advisors. Bu'r aelodau hefyd yn cyfarfod gyda gweinidogion o Mark Spencer Cadeirydd DEFRA i Lesley Griffiths, Gweinidog Materion Gwledig a nifer eraill.

Mae'r pwyllgor Rhyngwladol wedi bod yn brysur gyda dros 70 aelod yn cael eu cyfweld am deithiau niferus o'r Rali Ewropeaidd i deithio ar draws UDA, seminar Gwanwyn, Ynysoedd Orkney a thaith ddirgel! Gyda sawl aelod yn cael eu dewis a mwynhau gan obeithio dysgu a chreu ffrindiau newydd drwy'r profiadau hyn!

Mae'r pwyllgor Digwyddiadau a Marchnata wedi bod yn brysur ers penderfynu peidio parhau gyda'r Pentref Ieuenctid, yn trefnu gwahanol ddigwyddiadau a marchnata ar gyfer yr aelodau. Daeth hyn i'r amlwg yn ystod Sioe Frenhinol Cymru lle wnaethom 'takeover' yn Maes M am awr yn ddyddiol a wnaeth rhoi'r cyfle i ennill cynnyrch CFfI a gwrando ar gerddoriaeth o ddewis ein swyddogion tra bod ein Cadeirydd Elliw yn mwynhau bod yn DJ yn arw.

# Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
# Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023

Mae'r Fforwm Ieuenctid wedi bod yn brysur iawn, er eu bod yn fach o ran niferoedd mewn cyfarfodydd maent i gyd yn llawn egni a syniadau a helpodd i greu penwythnos fforwm ieuenctid a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn llwyddiannus iawn. Edrychaf ymlaen at weld y pwyllgor hwn yn datblygu felly anogwch eich aelodau ifanc i gymryd rhan yn y pwyllgor.

Mae pwyllgor Cystadlaethau wedi gweithio’n ddiflino er budd yr aelodau a’r mudiad, gan roi pecyn ardderchog o gystadlaethau i’r aelodau ymgymryd â nhw a bu hyn yn gymorth i arddangos talent ragorol yr aelodau yn yr holl gystadlaethau oedd ar lefel sirol, Cymru neu FfCCFfI.

Mae’r aelodau wedi cael blwyddyn wych yn dangos eu sgiliau, talent a dyluniadau i’r cyhoedd a chyd-aelodau a chefnogwyr. Yn enwedig yn ystod yr Eisteddfod cafodd ei chynnal yn Sir Benfro ym mis Tachwedd, yn ein gŵyl adloniant ym Mangor, y diwrnod Siarad Cyhoeddus ac yn olaf yn y Sioe Frenhinol, lle bu cynulleidfa gaeth naill ai ger y prif lwyfan neu yn cylch y gwartheg. Dyma beth rydyn ni fel mudiad yn medru ei wneud.

Hoffwn hefyd ddiolch i’r noddwyr am noddi’r mudiad trwy gydol y flwyddyn, mae eich caredigrwydd a’ch haelioni wedi’i werthfawrogi’n fawr gennyn ni.

Hoffwn ddiolch i bawb am fy helpu gyda her y Cadeirydd o wneud Tri Chopa Cymru, er nad oedd y tywydd y gorau fe wnaeth ein hysbryd a’n hegni ein cadw i fynd drwy’r dydd, hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd, noddwyd ac a ymunodd gyda ni i wneud y her.

Yn olaf, wrth i mi gamu lawr fel Cadeirydd CFfI Cymru hoffwn ddiolch i holl dîm staff yn Llanelwedd, fy nghyd-swyddogion, y trefnyddion sir, aelodau a chefnogwyr y mudiad am eich cefnogaeth a chymorth mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n gobeithio gweld y mudiad yn tyfu ac yn parhau i fynd o nerth i nerth i’r dyfodol. Pob lwc i chi gyd hefyd.

Diolch, Thank you

Hefin Evans , Cadeirydd CFfI Cymru
2022-2023


Her y Cadeirydd

Sganiwch i wylio y Sialens Tri Chopa


Hefin & Hetty



Hefin Evans

## Chair of Council's Report

I write my report of the past year with fond memories that I will cherish. It wasn't a easy start to the year with the disappointment of last years YPV looming over our heads and we as council members had numerous meetings and discussions as to the future of the event. As members we had varying opinions and ideas on how to move forward, however the decision was made that it was not financially viable for us to continue. As was passed, we disbanded YPV, but us members will cherish the fond memories we made while staying there during the show week.

We have fully stocked our staff team in the office at Builth Wells with the appointment of Miss Mared Rand Jones as our new CEO, where she took post in January. She has bought new energy and enthusiasm to the role. We must congratulate and give a big thank you to Claire Powell for taking the reins as interim CEO until Mared started, as she guided the YFC ship brilliantly.

The numerous sub committees we have in YFC have given a great platform for members to share suggestions and ideas. Starting with Rural Affairs, we held our study trip to the North of England to see numerous farms and businesses. As we moved to the new year we held our annual conference at Plas Isaf in Corwen with the theme 'Farming Journeys'. We had excellent speakers, namely Nigel Owens MBE, Llyr Derwydd, Rhydian Glyn and Rebecca Wilson. A breakout session followed in the afternoon with DPJ and a farm tour of Rhug Estate. We must give thanks to CCF yet again for sponsoring and to Will Pritchard for being the MC for the day. The committee have been busy launching two new competitions; the Prime Pork Competition and the Farm Business Innovation Competition with Rural Advisor. They also met with Ministers ranging from Mark Spencer, DEFRA Chair to Lesley Griffiths, Wales Minister of Agriculture and numerous others.

The International committee have been busy with over 70 members being interviewed for numerous trips ranging from the European Rally to backpacking across the USA, Spring Seminar, Orkney Islands and a Mystery Trip! With many members having been picked and enjoying their travels, making new friends across Wales with these experiences.

The Events and Marketing committee have been busy since we decided not to continue with YPV, arranging different activities and marketing for the members and this was evident during the Royal Show Week where we took over Maes M for an hour each day. This gave the attendees the chance to win YFC merchandise and listen to music chosen by our officers, with our Chair Elliw as one of the DJ's.

The Youth Forum have been very busy, even though they are small in numbers at meetings they are all still full of energy and ideas which helped make the youth forum weekend in Aberystwyth a great success. I look forward to seeing this committee develop so please encourage your youth members to participate in the committee.

The Competitions committee have worked tirelessly for the benefit of the members and the movement by creating an excellent programme of competitions for the members to undertake in. This helped showcase the excellent talent of the members in all the competitions being at county, Wales or NFYFC.

The members have had a great year showing their skills, talent and designs to the public, fellow members and supporters. Especially during the Eisteddfod held in Pembrokeshire in November, at our Entertainment Feast in Bangor, Public Speaking Day and the Royal Welsh Show, where we held a captive audience either by the main stage or in the cattle ring. This is what we as a movement can do.

I would like to thank all of our sponsors for supporting the movement throughout the year. Your kindness and generosity is highly appreciated by us all.

I'd like to thank everybody for helping me with my Chairman's Challenge of climbing the Three Peaks of Wales, even though the weather wasn't the best, the moral and energy of the group kept us going throughout the day. I thank everybody that donated, sponsored and joined in for the challenge.

Lastly as I step down as Chairman I'd like to thank the whole staff team in Builth, my fellow officers, the county organisers, members and supporters of the movement for your support and great help during the past year. I hope to see the movement grow and continue going from strength to strength in the future. And good luck to all of you too.



Chairman's Challenge

Diolch, Thank you

Hefin Evans , Wales YFC Chairman
2022-2023

Sgan to watch the Three Peaks Challenge



Hefin & Hetty

## Cyllid a Rheoli



Iwan Meirion

Cyfarfu'r pwyllgor sawl gwaith dros y deuddeg mis diwethaf dros Teams a gyda chyfarfodydd yn cynnwys holl swyddogion CFfI Cymru, a fu'n gweithio ochr yn ochr â phanel o arbenigwyr pwyllgor y mae'r sefydliad yn ddyledus iddynt am eu presenoldeb a'u cefnogaeth, sef Kathryn Jones, Steve Hughson a Hilary Jones.

Ymddiswyddodd Mr Malcolm Thomas o'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022 a diolchwyd iddo am ei amser a roddodd i'r sefydliad.

Derbyniwyd grant Iaith Gymraeg a chefnogodd swydd Datblygu'r Gymraeg, cyflogau staff eraill a'r 12 Sir. Ein Swyddog Datblygu'r Gymraeg oedd yn gyfrifol am fonitro'r grant hwn o ddydd i ddydd. Cefnogodd Ymddiriedolaeth Elusennol yr NFU y rhaglen Agri I lle cafodd 8 aelod eu hariannu i archwilio arferion ffermio amrywiol. Defnyddiwyd cyllid WCVA a oedd wedi'i neilltuo yn gychwynnol i gefnogi swyddog incwm, ar gyfer datblygu a gweithredu Strategaeth Incwm. Roedd cyllid NYVO wedi'i golli yn 2022. Chefnogodd y pwyllgor yr uwch staff gyda'r cais i ailymgeisio am gyllid a roedden yn llwyddiannus i'w sicrhau ar gyfer 2023/2024 a thu hwnt.

Chwaraeodd y Pwyllgor Cyllid a Rheolaeth ran enfawr wrth gefnogi'r Cyngor yn eu penderfyniad i roi'r gorau i fasnachu'r Pentref Ieuenctid am 2023. Yn ei le bu'r pwyllgor yn gweithio gyda staff i ddatblygu nawdd a defnydd ehangach o'r ystafell gynadledda a'r adeilad. Fel rhan o'r Strategaeth Incwm mae pwyllgor codi arian wedi ei sefydlu ac yn dechrau edrych ar ffrydiau ariannu eraill, fel clwb 200 a digwyddiadau codi arian.

Mae aelodau'r is-bwyllgor cyllid a rheolaeth wedi bod yn gyfrifol am ystyried a monitro pob agwedd ar gyllid y ffederasiwn; gan gynnwys cyllidebu, nawdd a dosbarthu arian wrth gefn. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn gyson gyda diwydrwydd i nodau ac amcanion y sefydliad.

## Finance & Management



Iwan Meirion

The committee met several times over the past twelve months via teams and with meetings consisting of all the Wales YFC officers, who worked alongside a panel of committee experts whom the organisation is indebted to for their attendance and support, namely Kathryn Jones, Steve Hughson and Hilary Jones.

Mr Malcolm Thomas stepped down from the committee in December 2022 and was thanked for his time of which he dedicated to the organisation.

The Welsh Language grant was received and supported the Welsh Development post, other staff salaries and the 12 Counties. The day-to-day monitoring of this grant was delivered by our Welsh Language Development officer. The NFU Charitable Trust supported the Agri I programme where 8 members were funded to explore various farming practices. WCVA funding which had been initially ring fenced to support an income officer was used for the development and implementation of an Income Strategy. The NYVO funding had been lost in 2022 and the committee supported the senior staff in reapplying, with the funding application being successful and being secured for 2023/2024 and beyond.

The Finance & Management committee played a massive part in supporting Council in their decision to cease the trading of the Young Peoples Village for 2023. In its place the committee worked with staff to develop sponsorship and the wider use of the conference room and building. As part of the Income Strategy a fundraising committee has been set up and is starting to look at other funding streams. Such as a 200 club and fundraising events.

Members of the finance and management sub committee have had the responsibility of considering and monitoring all aspects of the federations finances; including budgeting, sponsorship and the distribution of reserves. This work has been consistently carried out with diligence for the organisations aims and objectives.

## Cystadlaethau




Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn ar gyfer pwyllgor cystadlaethau'r Mudiad. Cynhaliwyd 100 o gystadlaethau yn ystod y flwyddyn ar draws saith digwyddiad.

Sir Benfro oedd gwesteion ein Heisteddfod flynyddol eleni yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun. Darlledwyd yr Eisteddfod ar S4C yn ogystal â Radio Cymru. Bu teilyngdod ym mhrif seremonïau'r Eisteddfod gyda'r gadair a ddyluniwyd a grëwyd gan Tomos Lewis o Langlydwen yn cael ei hennill gan Lisa Angharad Evans, Eryri, a'r goron a grëwyd gan Eifion Thomas o James Eifion Thomas Blacksmith yn cael ei hennill gan Mared Fflur Jones o Feirionnydd. Ceredigion oedd y Sir fuddugol ar ddiwedd yr Eisteddfod.

Braf oedd gallu parhau gyda phartneriaeth â Menter a Busnes a Cywain yn y Ffair Aeaf wrth i ni gyflwyno Ysgoloriaeth Cywain i aelod a oedd wedi cynllunio busnes newydd. Bu amryw o gystadlaethau o'r Bîff Ifanc i Dorri Cyw Iâr i addurno boncyff siocled. Wedi dau ddiwrnod o gystadlu fe ddaeth Ceredigion a Gwent yn gydradd cyntaf.

Y Wledd Adloniant ym Mhontio Bangor oedd ar y calendr nesaf i'r aelodau. Gwnaeth saith sir gystadlu yn yr adran Saesneg a phump yn yr adran Gymraeg. Yn ystod y penwythnos cynhaliwyd cystadleuaeth Aelod Hŷn y Flwyddyn ac Aelod Iau'r flwyddyn. Endaf Griffiths o Geredigion oedd enillydd Aelod Hŷn y Flwyddyn ac Elain Iorwerth o Feirionnydd oedd enillydd Aelod Iau'r Flwyddyn. CFfI Erwyd o Frycheiniog enillodd y gystadleuaeth adloniant yn yr adran Saesneg a CFfI Dyffryn Cothi o Sir Gâr enillodd yr adran Gymraeg.

Diwrnod Siarad Cyhoeddus oedd nesaf ar faes y Sioe yn Llanelwedd. Gyda phob Sir yn cystadlu yn ystod y dydd roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus dros ben. Sir Benfro enillodd yr adran Saesneg ac roedd Ceredigion a Sir Gâr yn gydradd fuddugol yn yr adran Gymraeg.

Ceredigion oedd gwesteion Diwrnod Gwaith Maes y Mudiad eleni a chafwyd diwrnod llwyddiannus ar Fferm Trawscoed. Ar ôl yr arwerthu, barnu stoc, y sioe ffasiwn a'r ffensio, Ceredigion oedd yn fuddugol ar ddiwedd y cystadlu.

Gŵyl Chwaraeon oedd yn dilyn ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda chystadlaethau Rownderi Merched, Hoci 'Rush' Dynion, Pêl fasged Gymysg iau a Dodgeball Cymysg Iau.

Pinacl y flwyddyn yng nghalendr cystadlaethau'r CFfI yw'r Sioe Frenhinol ac roedd hi'n wythnos lwyddiannus iawn gyda bron 1,000 o aelodau yn cystadlu yn ystod yr wythnos. Braf oedd datblygu perthynas gyda Teenage Cancer Trust ar gyfer cystadleuaeth Arddangosfa Ffederasiwn. Braf oedd gweld rygbi merched yn datblygu yng nghylch y gwartheg gyda Rowndiau Cyn-derfynol ar nos Lun a nos Fawrth a'r ffeinal ar brynhawn dydd Mercher. Wedi wythnos llawn bwrlwm cystadlu, Ceredigion oedd yn fuddugol.

Teithiodd nifer o'n haelodau i gystadlu mewn amryw o gystadlaethau NFYFC yn ystod y flwyddyn megis Ffair Aeaf Lloegr, Gŵyl Adloniant, Siarad Cyhoeddus a Chwaraeon. Hoffwn fel pwyllgor ddiolch i staff CFfI Cymru am yr holl gymorth, i'n holl feirniaid, stiwardiaid, noddwyr ac aelodau am sicrhau fod calendr cystadlaethau CFfI Cymru yn mynd o nerth i nerth.

## Competitions



Sioned Davies

It has been a very busy and successful year for the Federation's competitions committee. 100 competitions were held during the year across seven events.

Pembrokeshire were the hosts of our annual Eisteddfod this year at Ysgol Bro Gwaun, Fishguard. The Eisteddfod was broadcast on S4C as well as Radio Cymru. There were big decisions to be made in the main ceremonies of the Eisteddfod with the chair designed and created by Tomos Lewis from Langlydwen being won by Lisa Angharad Evans, Eryri, and the crown created by Eifion Thomas from James Eifion Thomas Blacksmith being won by Mared Fflur Jones from Meirionnydd. Ceredigion was the winning County at the end of the Eisteddfod.

It was nice to be able to continue our partnership with Menter a Bunes and Cywain at the Winter Fair as we presented a Cywain Scholarship to a member who had planned a new business. There were various competitions from the Baby Beef to chicken jointing to decorating a chocolate log. After two days of competitions, Ceredigion and Gwent were joint winners.

The Entertainment Feast at Pontio, Bangor was next on the calendar for the members. Seven counties competed in the English section and five in the Welsh section. During the weekend the Member of the Year and Junior Member of the year competitions were held. Endaf Griffiths from Ceredigion was the winner of Senior Member of the Year and Elain Iorwerth from Meirionnydd was the winner of Junior Member of the Year. Erwood YFC from Brecknock won the entertainment competition in the English section and Dyffryn Cothi YFC from Carmarthenshire won the Welsh section.

Public Speaking Day was next on the Showground in Llanelwedd. With every County competing during the day, it was an extremely successful event. Pembrokeshire won the English section and Ceredigion and Carmarthenshire were joint winners in the Welsh section.

Ceredigion were the hosts of this year's Field Day and it was a successful day at Trawscoed Farm. After the auction, stock judging, the fashion show and the fencing, Ceredigion was victorious at the end of the competition.

Sports Day followed at Aberystwyth University with Ladies Rounders, Men's 'Rush' Hockey, Junior Mixed Basketball and Junior Mixed Dodgeball competitions.

The pinnacle of the year in the YFC competitions calendar is the Royal Welsh Show and it was a very successful week with almost 1,000 members competing during the week. It was great to develop a relationship with Teenage Cancer Trust for the Federation Display competition. It was good to see Women's Rugby developing in the cattle ring with heats on Monday and Tuesday nights and the final on Wednesday afternoon. After a week full of competition, Ceredigion were announced as the winners.

A number of our members travelled to compete in various NFYFC competitions during the year such as the English Winter Fair, Entertainment Feast, Public Speaking and Sports. As a committee we would like to thank the Wales YFC staff for all their help, to all our judges, stewards, sponsors and members for ensuring that the Wales YFC competitions calendar goes from strength to strength.



Dawnsio



Wool Handling



Tynnu'r Gelyn



Cookery



Rugby



Sgiliau Syrcas



Promote Your Club



Gwaith Coed



Derbyniadau

Dydd Llun / Monday

Dydd Mawrth/ Tuesday



On the Spot



Barnu Stoc



Acting



Crefft



Main Ring Display



Singing



Gwisgo Fynu



Shearing



Gosod Blodau



Ladies Rugby




Cneifio



Junior TOW



Actio



Dancing



Gem yr Oesoedd



Dressing Up



Coginio




Hyrwyddo eich Club

Dydd Mercher / Wednesday

Dydd Iau / Thursday



Receptions



Canu



Prif Gylch




Tug of War



Flower Arranging



Chairman's Challenge




Woodwork



Stock Judging



Circus Skills

## Materion Gwledig

Ym mis Hydref 2022, teithiodd 35 o aelodau i Cumbria ar gyfer ein Taith Astudio flynyddol, lle gwelwyd amrywiaeth o ffermydd bîff, defaid a godro, ac ymwelwyd â nifer o fusnesau gwledig sydd ynghlwm â'r diwydiant amaeth.

Teithiodd aelodau o ar draws Cymru a thu hwnt i Gorwen ar gyfer ein cynhadledd 'Llwybrau Ffermio', gan glywed wrth panel o siaradwyr adnabyddus, dysgu am gyfleoedd datblygiad personol mewn sesiynau grŵp, a darganfod syniadau newydd ar ymweliadau fferm.

Rydym wedi sicrhau bod llais ein haelodau yn cael ei glywed gan ddatblygwyr polisi trwy weithdai ymateb ymgynghoriad, a chynnal cyfarfodydd gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod ein hymateb i gynigion.

Mae cynrychiolwyr y pwyllgor wedi mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn gan hyrwyddo cyfleoedd datblygiad personol newydd a phresennol, o gyrsiau ymarferol i'r gystadleuaeth Cynllunio Busnes Fferm a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Lansiwyd y gystadleuaeth Prif Gynhyrchwr Porc, olynydd i gynllun Menter Moch Cymru ym mis Gorffennaf 2023 i ategu at ein cystadlaethau Prif Gynhyrchwr Cig Oen a Bîff Ifanc.

Dathlodd Cynllun Wŷn CFfI Cymru 15 mlynedd, cynllun sy'n rhoi gwerth ychwanegol i gynnyrch ein haelodau, a chefnogi'r mudiad yn ariannol.

Trwy weithio gyda'n partneriaid, rydym wedi parhau i ddarparu ymwybyddiaeth diogelwch fferm i'n haelodau trwy gystadlaethau, a chyfrannu mewn digwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Wrth gydweithio gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat mae modd i ni barhau i gynnig rhaglen eang o weithgareddau amrywiol, a diolchwn i bawb sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn ac i'r dyfodol.


Dewi Davies



Menter Moch



Taith Astudio Cumbria

## Rural Affairs

In October 2022, 35 members travelled to Cumbria for our annual Study Tour where we saw a range of beef, sheep and dairy farming operations and visited a number of agriculture-related rural businesses.

Members from across Wales and beyond travelled to Corwen for our ‘Farming Journeys’ conference, hearing from a panel of high-profile speakers, learning about personal opportunities in breakout sessions, and seeking new ideas on farm visits.

We’ve ensured that our members’ voices are heard by policy makers through consultation response workshops, and hosting meetings with Government officials to discuss responses to proposals.

Committee representatives have attended many events throughout the year, promoting new and existing personal development opportunities, from practical training courses to the recently launched Farm Business planning competition.

Prime Pork, the successor to the Menter Moch Cymru scheme was launched in July 2023 to complement our existing Prime Lamb and Baby Beef competitions.

The Wales YFC Lamb Scheme celebrated 15 years, giving members enhanced value when marketing their produce, and financially supporting the federation.

Working with our partners, we have continued to deliver farm safety awareness to our members through various competitions, and participation in events throughout the year.

Close collaboration with both public and private sector organisations ensure that we are able to continue offering our varied programme of activities, and our thanks goes to all who have worked with us during the year and into the future.



Dewi Davies




Menter Moch




Cumbria Study Tour

## Digwyddiadau a Marchnata



*Elliw Griffith*

Mae’r pwyllgor yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob un o’r deuddeg Ffederasiwn sirol yng Nghymru, sydd wedi cwrdd o leiaf bob chwarter yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ynghyd a chyfarfodydd dros y wê.

Yn dilyn penderfyniad gan Gyngor CFfI Cymru i ddod a'r Pentref Ieuenctid i ben, mae wedi galluogi i'r Pwyllgor i ganolbwyntio fwy ar hybu'r Mudiad dros y gwefannau cymdeithasol yn ystod wythnos y Sioe. Fe gafodd y mudiad hefyd gyfle i wneud 'Takeover Maes M' am awr bob nos yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol.

O ganlyniad i ddiddymu'r Pentref Ieuenctid mae'r Pwyllgor wedi ffocysu ei sylw ar benwythnos CCB CFfI Cymru i geisio ei hyrwyddo fel y prif digwyddiad cymdeithasol ar gyfer aelodau CFfI Cymru a thu hwnt.

Yn 2022 bu i gwmni Cywain greu fideo hyrwyddo ar gyfer CFfI Cymru yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol. Bwriad y Pwyllgor yw adeiladu ar y fideo hwn gan greu a rhyddhau fideo newydd eleni i hyrwyddo'r Mudiad ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfa gan dargedu'r pwynt 'nad oes rhaid bod yn Ffermwr i fod yn aelod o CFfI.

Bydd y Pwyllgor yn gobeithio adeiladu ar y gwaith gwych sydd wedi cael ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol a thu hwnt i geisio hyrwyddo'r Mudiad i gynulleidfa ehangach, drwy gyd-weithio gyda'n Swyddog Marchnata newydd.

*Sganiwch i weld yr hwyl a gawson ni ym Maes M!*

*Nos Lun* | *Nos Fawrth* | *Nos Fercher*



Elliw Griffith

## Events & Marketing

The committee consists of two representatives of each of the twelve county federations in Wales, that have met at least every quarter over the past twelve months, in addition to online meetings.

Following the decision by Wales YFC Council to end the YPV, it has enabled the committee to focus more on promoting the movement over social media during the Show week. The movement also had an opportunity to do a Maes M Takeover for an hour each night during Royal Welsh week.

As a result of stopping YPV, the committee has focused on Wales YFC's AGM weekend to try promoting it as the main social event for Wales YFC members and beyond.

In 2022, Cywain created a promotional video for Wales YFC during Royal Welsh week. The committee's aim is to build on this video by creating and releasing a new video this year to promote the movement for a variety of audiences by targeting the point 'you don't have to be a farmer to be a member of YFC.'

The Committee hopes to build on the great work that's been done on the social media and beyond to promote the movement to a wider audience, by working with the new Marketing Officer.

*Scan to see the fun we had in Maes M!*

Monday

Tuesday

Wednesday




## Rhyngwladol

Am 12 mis mae wedi bod, fy ail flwyddyn fel Cadeirydd i'r pwyllgor rhyngwladol ac am flwyddyn yn bersonol yn ogystal ag i'r pwyllgor.

Rydym wedi cael blwyddyn orlawn ers rhyddhau ein rhaglen newydd gydag amrywiaeth o gyfleoedd newydd yn ogystal â rhai o'r hen ffefrynnau i aelodau gymryd rhan ynddynt. Cawsom ymateb rhyfeddol gyda dros 70 cais i 9 cyfle teithio gwahanol yn ogystal ag Ysgoloriaeth Goffa Elwyn Jones. Bu diwrnod dethol prysur ei chynnal mis Rhagfyr gyda phaneli'n cyfweld drwy'r dydd i ddewis timoedd fyddai'n cydweithio'n dda gyda'i gilydd yn ogystal â chynrychioli Cymru yn y ffordd orau posib. Roeddem wedi gwirioni ein bod yn gallu cynnig lle i dros 65 aelod ar y rhaglen ryngwladol.

Hefyd gyda'r rhaglen deithio, buom yn gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i gynnig taith breswyl iau i Aberystwyth ar daith dros nos. Cawsom 25 o aelodau iau dros 8 sir ynghyd am noson oedd yn cynnwys gweithgareddau adeiladu tîm, escape room, hungry hippos, noson bitsa gan orffen gyda thaith fferm, cafodd pawb benwythnos ardderchog a braf oedd gweld ein haelodau ifanc yn datblygu dros y daith a chreu ffrindiau newydd ar draws Cymru, dechrau llwyddiannus i'r hyn gall y Fforwm Ieuenctid ynghyd a'r Pwyllgor Rhyngwladol adeiladu arno.

Gyda'r haf yn agosáu, roedd Teithiau Agri I a Rural Youth Europe eisoes ar y gweill, nesaf ar yr agenda oedd ein Derbyniad Rhyngwladol yn Sioe Frenhinol Cymru, gyda nifer wych o aelodau a chymdeithion yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr FfCCFfI, SAYFC. ac YFCU. Fe wnaethom ddatgelu ein taith fawr ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar ôl i aelodau bleidleisio dros Japan neu Ganada, archebwyd Poutine fel bwyd wrth i ddeilen y Maple hedfan yn gryf. Croesawyd hefyd y Llysgenhadon Ffermwyr Ifanc a gyflwynwyd yn garedig iawn £1,000 i ni o Aduniad CFfI Cymru a £300 gan Gymdeithas Ffermwyr Ifanc Cymru a Lloegr. Rhoddion yr ydym yn hynod ddiolchgar amdanynt. Mae unrhyw un sydd wedi bod ar daith deithio yn gymwys i ymuno â'r YFA gyda'r aduniad nesaf yn yr Alban ym mis Hydref a'r flwyddyn nesaf y mae Cymru'n ei chynnal felly cofiwch gadw llygad am ragor o wybodaeth.

O Ymweld â'r Acropolis ar y Daith Ddirgel, Barnu stoc yn Ynys Manaw, pasbortau brys a dawnsio traddodiadol yn Awstria, dawns FfCCFfI a theithiau fferm niferus gyda'r Agri I, nofio yn Llyn Como tra'n intereilio, dawnsiau sioe a dyddiau Mart yn Orkney, a cherdded yn y Grand Canyon syfrdanol tra yn America, mae rhaglen ryngwladol eleni wir wedi cael rhywbeth i bawb lle mae atgofion a ffrindiau am oes wedi'u creu.

Gyda phawb adref yn ddiogel a'r rhaglen nesaf wedi'i ryddhau, edrychwn ymlaen at weld yr aelodau'n ymgeisio ac yn obeithiol am ddiwrnod dethol brysur arall. Erbyn hyn, gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael golwg ac wedi gweld pa daith sy'n mynd a'ch bryd gyda rhai newydd cyffrous ac un daith na allaf aros i hwylio arni.

Yr unig beth sydd ar ol i mi ei ddweud ar ran y pwyllgor a minnau yw diolch enfawr i bawb sydd wedi teithio eleni a chynrychioli CFfI Cymru mewn ffordd mor wych. Hefyd i Rhianwen am ei holl waith caled am ymroddiad i'r rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar lefel bersonol, mae wedi bod yn bleser i gadeirio'r pwyllgor hwn am ddwy flynedd a gweithio wrth ochr staff, swyddogion ac aelodau anhygoel sydd wedi gwneud fy nghyfnod yn un arbennig. Oni bai am deithio gyda'r CFfI, ni fyddwn i erioed wedi cael y 'byg' teithio, rwy'n clywed nad oes ffordd i'w osgoi. Rhowch gynnig ac ymgeisio, nid oes dim i'w golli, dim ond anturiaethau i'w hennill, a fel dywedodd IBN Battua unwaith; Teithio - mae'n eich gadael yn fud, ac yna'n eich troi'n storïwr.



Taith UDA


Ynysoedd Orkney


Taith Dirgel


Intreilio o amgylch Ewrop


Ynys Manaw


Budapest

## International



Nerys Lewis

What a 12 months it has been, my second year as chairman for the international committee and what a year it has been on a personal note, as well as for the committee.

We have had a jam packed year which started with the release of our new programme which had a variety of new opportunities as well as some old favourites for members to get involved in. We had a phenomenal response with over 70 applications to 9 different travel opportunities as well as the Elwyn Jones Memorial Scholarship. A busy selection day was held in December with panels interviewing all day to select teams that would work well together as well as represent Wales in the best possible way. We were delighted to be able to offer over 65 members places on the International Programme.

We also worked with the Youth Forum to offer a junior residential trip to Aberystwyth for an overnight stay. We had 25 junior members across 8 counties for a 1 night stay which included team building, escape rooms, hungry hippos, pizza night and finished off with a farm tour. A brilliant weekend was had by all and it was great to see our young members develop during the trip and make new friends from across Wales, a very successful start to what the Youth Forum along with International committee can build upon.

With the summer approaching we had already had the start of the Agri I and Rural Youth Europe Trips, next on the agenda was our International Reception at the Royal Welsh Show, a brilliant turnout of members and associates, along with representatives from NFYFC, SAYFC and YFCU. We revealed our big trip for next year, after members voted between Japan or Canada, Poutine was served as the Maple leaf flew strong. We also welcomed the Young Farmers Ambassadors who very kindly presented us with £1,000 from the Wales YFA reunion and £300 from the England and Wales YFA. Donations that we are incredibly grateful for. Anyone who has been on a travel trip is eligible to join the YFA with the next reunion in Scotland in October and next year Wales are hosting so be sure to look out for more information.

From Visiting the Acropolis on the Mystery Trip, Stock judging in the Isle of Man, Emergency passports and traditional dancing in Austria, NFYFC ball and numerous farm tours with the Agri I, Swimming in Lake Como while interrailing, show dances and Mart days in Orkney, and walking in the breath-taking Grand Canyon while in America, this year's international programme really has had something for everyone where memories and friends for life have been made.

With everyone home safe and sound and the next programme released we look forward to members applying and hopeful for another busy selection day. By now I hope you have all had a scan through and seen which trip takes your fancy with some exciting new additions and one trip that I for one cannot wait to set sail on.

All that is left for me to say on behalf of the committee and myself is a massive thank you to everyone who has travelled this year and represented Wales YFC in such a brilliant way, also to Rhianwen for all her hard work and dedication to the programme over the last year.

On a personal note it has been an honour to chair this committee for two years and work alongside some brilliant staff, officers and members who have made my time amazing, if it wasn't for YFC Travel I would have never have been bitten by the travelling bug, which I hear there is no antidote for. Give it a go and apply, you have nothing to lose only adventures to gain, and as IBN Battua once said Travelling - It leaves you speechless, then turns you into a story teller.

**Edrychwch ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud!**
**See what we got up to on our travels!**

**Seminar Hydref 2022**
**Autumn Seminar 2022**

**Seminar Astudio 2023**
**Study Seminar 2023**

**Ynysoedd Orcni 2023**
**Orkney Islands 2023**

**Intereilio 2023**
**Interrailing 2023**

**UDA 2023**
**USA 2023**

**Ynys Manaw 2023**
**Isle of Man 2023**

**Rali Ewropeaidd 2023**
**European Rally 2023**

**Trip Dirgel 2023**
**Mystery Trip 2023**

*Scaniwch ni! Scan us!*




Elain

## Aelod Iau Y Flwyddyn

Rydw i'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Prysor ac Eden yn Nhrawsfynydd ers i mi fod yn 11 oed, pan yn dechrau'r ysgol uwchradd. Dros 18 mlynedd, mae llawer o bethau wedi fy siapio fel person, a wedi cyfrannu at godi fy hyder a gwella sgiliau, ond heb os, y Ffermwyr Ifanc sydd wedi dylanwadu arnaf fwyaf. Mae'r profiadau sydd ar gael drwy'r mudiad mor werthfawr a phwysig ym mywyd pob aelod, a mae yna reswm pam mod i'n dal i fynychu'r clwb yn wythnosol 7 mlynedd yn ddiweddarach!

Cyn ymaelodi â'r clwb, yn barod roeddwn i'n edrych ymlaen at rai o ddigwyddiadau calendr flynyddol y CFfI, megis yr Eisteddfod, Rali a'r Siarad Cyhoeddus yn bennaf. Rydw i wrth fy modd yn canu a pherfformio ers yn ifanc iawn, felly mae'r Eisteddfod yn ffordd wych o ddangos doniau ond cael andros o hwyl yr un pryd! Does na byth ddim byd yn rhy serious gan y ffermwyr ifanc! Mae'r Rali hefyd wedi cynnig cymaint o bethau newydd i mi. Pe bai rhywun wedi dweud wrthai 7 mlynedd yn ol mod i'n cystadlu yn y gosod blodau, fyswn i byth wedi'ch coelio chi! Ond mae'r Rali yn bendant yn ddigwyddiad sy'n cynnig popeth i bawb. Rydw i wedi cael cyfle i dynnu rhaff, canu, dawnsio, hyrwyddo'r clwb a llawer mwy, a mae'n braf gweld y gynrychiolaeth hyn wedyn yn cael ei arddangos ar lwyfan gwladol yn y Sioe Frenhinol. Yn sicr, rydw i'n ystyried cystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn o ran y CFfI. Mae'n brofiad sy'n gallu datblygu llawer o sgiliau megis codi hyder, cydweithio a gwreiddioldeb, ac wrth gwrs - mae'n gyfle i falu awyr! Un o brif sgiliau pob ffermwr ifanc! Yn sicr, datblygu o fewn y Siarad Cyhoeddus ar hyd y blynyddoedd sydd wedi fy nghael i i fan hyn yn y pendraw - yn Aelod Iau y Flwyddyn yma yng Nghymru.

Tan eleni, doeddwn i heb hyd yn oed ystyried cystadlu am y teitl Aelod Iau, ond eleni, yn y funud olaf penderfynais yrru ffurflen gais i mewn. Wedi ennill yn fy sir a chael fy ngyrru ymlaen i Bontio i gystadlu drwy Gymru, wnes i erioed freuddwydio y byswn yn cael y teitl drwy Gymru hefyd! Doedd gen i ddim syniad beth i ddisgwyl o'r gystadleuaeth, na beth oeddwn i'n ei wneud mewn gwirionedd! Dwi'n cofio troi fyny i'r gystadleuaeth a phawb mewn ffrogiau crand a siwtiau, a finna yna mewn jins a chrys clwb. Felly, yn amlwg, braint o'r mwyaf oedd ennill y teitl!

Roedd hi'n fraint arall ar ôl hynny pan enillais y drydedd wobr am y gystadleuaeth Aelod Iau Prydain. Bu'n brofiad gwerthfawr iawn dros y ffin yn cystadlu'n Stafford, a profiad na ddychmygais byth y byswn yn ei gael. Yn sicr, mae'r flwyddyn hon wedi sefyll allan yn fy nghyfnod yn y ffermwyr ifanc hyd yn hyn, a rydw i'n drist o orfod tynnu fy hun i'r ochr am gyfnod wrth ddechrau fy nghyfnod yn y brifysgol. Ond rydych chi'n sicr o fy ngweld rhyw ben yn y digwyddiadau sydd i ddod yn y flwyddyn! Yr unig beth allai ddweud ydi diolch i'r ffermwyr ifanc am roi profiadau mor arbennig i mi ar hyd y blynyddoedd, a 'dwi'n gobeithio y bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod!

## Junior Member of the Year




Elain

I'm a member of Prysor ac Eden Young Farmers Club, Trawsfynydd since being 11 years old, when I started secondary school. Over 18 years, a lot of things have shaped me as a person, and contributed in raising my confidence and developing skills, but without a doubt, it's the young farmers that's been the biggest influence on me. The experiences available through the movement are so valuable and important in every members' life, and there's a reason why I still attend the club weekly 7 years later!

Before joining the club, I was already looking forward to some of the YFC's yearly calendar events, such as the Eisteddfod, Rally and Public Speaking mainly. I've loved singing and performing since I was very young, so the eisteddfod is a great way to show talents but have a lot of fun at the same time! Nothing is ever too serious with the young farmers! The rally has also offered me so many new things. If someone had told me 7 years ago that I was competing in the flower arrangement, I would never have believed you! But the rally is definitely an event that offers everything to everyone. I've had the opportunity to pull rope, sing, dance, promote the club and much more, and it's nice to see this representation then displayed on a national stage at the Royal Welsh Show. I certainly consider the Public Speaking competition to be one of the highlights of the year for the YFC. It's an experience that can develop many skills such as raising confidence, collaboration and originality, and of course - it's an opportunity to talk! One of the main skills of every young farmer! Certainly, my development within the Public Speaking throughout the years that got me here - as Junior Member of the Year in Wales.

Until this year, I hadn't even considered competing for the Junior Member title, but this year, at the last minute I decided to send in an application form. Having won in my county and being sent on to Pontio to compete through Wales, I never dreamed that I would get the title through Wales too! I had no idea what to expect from the competition, or what I was actually doing! I remember turning up to the competition and everyone in fancy dresses and suits, and me there in jeans and a club shirt. So, obviously, it was a great privilege to win the title!

It was another privilege after that when I won third prize for the National Junior Member competition. It was a very valuable experience across the border competing in Stafford, and an experience I never imagined I would have. Certainly, this year has stood out in my time at the young farmers so far, and I am sad to have to pull myself aside for a while while starting my time at university. But you are sure to see me at some of the events to come in the year! The only thing I could say is thank you to the young farmers for giving me such special experiences throughout the years, and I hope that will continue for years to come!



Endaf Griffiths

## Aelod Hŷn Y Flwyddyn

Pan ymunais i â'r CFfI yn ôl yn 2005 yn 11 oed, roeddwn i'n berson swil a diniwed. 17 mlynedd yn ddiweddarach, dwi'n dal i fod yn berson swil a diniwed(!), ond gyda chyfoeth o sgiliau yn fy meddiant. Mae fy nghyfnod yn aelod o'r CFfI wedi'i rannu'n ddau. Treuliais y degawd cyntaf yn aelod o CFfI Dyffryn Cothi yn Sir Gâr, cyn croesi afon Teifi ac ymuno ag CFfI Pontsiân yng Ngheredigion lle bûm yn aelod am saith mlynedd hyd nes mynd dros oedran eleni. Rhwng y ddau glwb a'r ddau ffederasiwn dwi wedi meithrin llawer o sgiliau bywyd, datblygu hunanhyder ac, yn bwysicaf oll, gwneud ffrindiau oes. Heb yr CFfI, fyddwn i'n bendant ddim y person yr ydw i heddiw – a heb gymaint o rychau ar fy wyneb wedi'u hachosi gan chwerthin!

Un o'r pethau pwysicaf am y mudiad hwn i mi yw'r ymdeimlad o berthyn. Trwy fod yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc, rydych chi'n rhan o rywbeth arbennig. Hawdd fyddai disgrifio unrhyw Glwb Ffermwyr Ifanc yn 'gymuned' ac, yn wir, mae'r gair hwnnw'n un pwysig yng ngeiriadur llawer aelod. Bob blwyddyn, mi welwch chi aelodau ledled Cymru'n gweithio'n ddiflino yn eu cymunedau – yn cynnal cyngherddau, yn codi arian at achosion da, neu'n cynorthwyo gyda gwahanol brosiectau cymunedol. Heb y Ffermwyr Ifanc, mi fyddai wedi canu ar sawl cymuned wledig – ac ar y Gymraeg mewn ambell fan hefyd. Mae'n bwysig felly fod yr CFfI yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu am hyn.

Wrth edrych yn ôl ar fy nghyfnod yn aelod o'r CFfI, dwi'n ddiolchgar am yr holl gyfleoedd dwi wedi'u derbyn, ac am yr holl hwyl a'r chwerthin hefyd. O Farnu Stoc i Goginio, o Dynnu'r Gelyn i Ffensio, ac o Siarad yn Gyhoeddus i deithio'r byd – i enwi ond rhai – mae'r hyn a gynigir i aelodau'n amrywiol ac yn werthfawr tu hwnt. Fy neges i holl aelodau CFfI Cymru yw gwnewch yn fawr o'r holl gyfleoedd hyn ac yna ewch yn eich blaenau i wneud gwahaniaeth o fewn eich cymunedau. Mae cefn gwlad Cymru eich angen chi.

****

Mae wedi bod yn bleser cwrdd ag aelodau o bob cwr o Gymru yn ystod y misoedd diwethaf, ac edrychaf ymlaen at gwrdd â mwy ohonoch chi yn yr amser sydd gen i'n weddill yn y rôl.

Os hoffech chi wybod mwy am yr hyn dwi'n ei wneud fel Aelod Hŷn y Flwyddyn CFfI Cymru, dilynwch fi ar Instagram ('Aelod Hŷn CFFI Cymru') neu ar X ('@AelodHynCffi').

## Senior Member of the Year




Endaf Griffiths

When I first joined the YFC movement back in 2005 at the young age of 11, I was a shy and innocent person. 17 years later, I'm still a shy and innocent person(!), but with a wealth of skills at my disposal. My time as a member of the YFC movement is split into two. I spent the first decade as a member of Dyffryn Cothi YFC in Carmarthenshire, before crossing the river Teifi and joining Pontsiân YFC in Ceredigion where I was a member for seven years until going over age this year. Between the two clubs and two federations, I've gained many life skills, developed self-confidence and, most importantly, made lifelong friends. Without the YFC movement, I certainly wouldn't be the person I am today – and wouldn't have so many wrinkles on my face caused by laughter!

One of the most important things about this movement for me is the sense of belonging. By being a member of a Young Farmers Club, you are part of something special. It would be easy to describe any Young Farmers Club as a 'community' and, indeed, that word is important to many members. Each year, you'll see members across Wales working tirelessly in their communities – organising concerts, raising money for good causes, or assisting with various community projects. Without the Young Farmers, the death knell would have tolled for many rural communities – and for the Welsh language in some places too. It is therefore important that the YFC movement gets the recognition it deserves for this.

Looking back on my time as a member of the YFC, I'm grateful for all the opportunities I've received, and for all the fun and laughter I've had along the way too. From stock-judging to cooking, from Tug of War to fencing, and from public speaking to travelling the world – to name but a few – what is offered to YFC members is both varied and valuable. My message to all Wales YFC's members is to make the most of all these opportunities and then go on to make a difference within your communities. Rural Wales needs you.

****

It's been a pleasure meeting members from all across Wales over the past few months, and I look forward to meeting more of you in the time I have left in the role.

If you would like to find out more about what I'm up to as Wales YFC's Senior Member of the Year, follow me on Instagram ('Aelod Hŷn CFFI Cymru') or on X ('@AelodHynCffi').

# Personel a Thal

Mae'r pwyllgor personel a thal wedi cyfarfod sawl gwaith yn ystod y flwyddyn i drafod a chefnogi staff yn CFfI Cymru. Yn Ionawr 2023, apwyntiwyd Mared Rand Jones i'r rol Prif Weithredwr.

Newidodd teitl swydd Claire Powell o Rheolwr Cyllid a Gweinyddu i Reolwr Gweithrediadau yn dilyn llenwi rol Prif Weithredwr rhwng cyfnod 1 Gorffennaf 2022 i 16 Ionawr 2023, tra bod y mudiad yn cael amser i benodi. Yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos yn bennaf yn y swyddfa.

Apwyntiwyd Ella Jones i rol Marchnata a Chyfathrebu ar 5 Medi 2022 cyn gadael y swydd yn Mehefin 2023 i astudio fferyllfaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd Carys Storer Jones ei apwyntio i'r rol cyn Sioe Frenhinol Cyrmu 2023 ac yn gweithio llawn amser.

Lee Pritchard cafodd ei ethol i rol Swyddog Materion Gwledig yn Awst 2022, wedi gwneud dros flwyddyn llawn amser gyda CFfI Cymru yn datblygu gwaith pwyllgor Materion Gwledig.

Penodwyd Nia Haf Lewis fel Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn Mawrth 2022 ac ers hynny wedi cymryd cyfrifoldeb o'r Fforwm Ieuenctid yn ogystal a Datblygu'r Gymraeg. Mae'n gweithio'n llawn amser o adref.

Mae Rhianwen Jones wedi parhau yn ei rol fel Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol yn llawn amser gan ddatblygu gwaith y rhaglenni cystadlaethau a rhyngwladol.

Mae Megan Jones yn gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos yn y swyddfa i gynorthwyo staff gyda gweinyddu a chyfieithu.

Bu Sally Griffiths yn gweithio dros dro ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2023 am 4 dydd yr wythnos yn y swyddfa, gyda chyfrifoldeb dros gefnogi staff gyda dyletswyddau gweinyddol.

Mae'r pwyllgor wedi ymateb i'r argyfwng costau byw a wedi gweithredu cynnydd canrannol mewn cyflogau staff. Mae'r llawlyfr staff wedi'u rhannu gyda'r holl staff sydd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gyda gwasanaeth cyflogaeth NFU.



# Personnel and Remuneration Report

Personnel and Remuneration have met several times throughout the year to discuss and support staff at Wales YFC. January 2023 saw the appointment of Mared Rand Jones into the role of Chief Executive.

Claire Powell's job title changed from Finance & Administration Manager to Operations Manager having covered the role of Chief Executive for the period 1 July 2022 to 16 January 2023 whilst the organisation took time to appoint. Working now four days per week mainly office based.

Ella Jones was appointed on the 5 September 2022 into the Marketing & Communications role and left the position in June 2023 to study pharmacy in Cardiff University. Carys Storer Jones was appointed into the role just before Royal Welsh 2023 and is full time.

Lee Pritchard was appointed into the role of Rural Affairs Officer in August 2022, having done over 1 year with Wales YFC full time developing the work of the Rural Affairs committee.

Nia Haf Lewis was appointed as the Welsh Development officer in March 2022 and has since taken on the responsibility of the Youth Forum as well as Welsh Development. Nia Haf works full time and is homebased.

Rhianwen Jones has continued in her role as Competitions & International officer full time developing the work of the competitions programme and International programme.

Megan Jones works 2 days per week office based supporting staff with administration and translation.

Sally Griffiths was brought in on a temporary basis for the 2023 Royal Welsh show 4 days per week, office based with responsibility in supporting staff with administrative duties.

The committee have reacted to the cost-of-living crisis and implemented a percentage increase in staff wages. The Staff Handbook has been shared with all staff and had previously been approved by NFU Employment Service.



# Ystadegau Aelodau / Membership Statistics 2022-2023

| **SIR / COUNTY** | **31/08/2022** | **31/08/2023** | **Newid o / change from 31/08/2022 (%)** |
|---|---|---|---|
| Brycheiniog / Brecknock | 478 | 529 | 10.67% |
| Sir Gâr / Carmarthenshire | 807 | 792 | -1.86% |
| Ceredigion | 719 | 676 | -5.98% |
| Clwyd | 388 | 332 | -14.43% |
| Eryri | 375 | 467 | 24.53% |
| Morgannwg / Glamorgan | 272 | 298 | 9.56% |
| Gwent | 239 | 273 | 14.23% |
| Meirionnydd | 183 | 207 | 13.11% |
| Maldwyn / Montgomery | 604 | 645 | 6.79% |
| Sir Benfro / Pembrokeshire | 589 | 644 | 9.34% |
| Maesyfed / Radnor | 418 | 441 | 5.50% |
| Ynys Môn | 152 | 178 | 17.11% |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **5224** | **5482** | |


USA Trip


Taith Fforwm Ieuenctid


Eisteddfod


Chairman's Challenge


Study Tour


Treialon Cwn Defaid


Winter Wonderland


Prime Lamb


Cynhadledd Agri23


Isle of Man Trip


Gwledd Adloniant



Eisteddfod Bodedern


Y Sioe Frenhinol


Eisteddfod


Public Speaking Day


Senior Member Finalists


Diwrnod Gwaith Maes


Sports Day


Rygbi Merched


Entertainment Feast



Dafydd Jones

## Grŵp Adeiladu

Mae'r Grŵp Adeiladu wedi cyfarfod gyda pensaeri i drafod gwaith posib fydd angen ei wneud ar yr adeilad ac wedi penodi Thomas Login i gynnal arolwg a chydymffurfio gyda chynlluniau, Roedd y Grŵp yn awyddus i wneud yr adeilad yn ddiogel i staff ac ymwelwyr a sicrhau ei fod yn cyrraedd holl ofynion diogelwch yr adeilad.

Fodd bynnag, cytunodd y sefydliad ei bod yn bwysig yn gyntaf blaenoriaethu cyllid y sefydliad a gwneud yn siŵr bod cyllid digonol yn ei le i'r mudiad barhau cyn ymrwymo i unrhyw wariant ar yr adeilad.

Mae gwaith hanfodol wedi'i wneud gan gynnwys peintio'r gegin a'r swyddfeydd mewnol i fyny'r grisiau a phaentio allanol o ddrws y gweithdy a drysau'r bwth. Mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau ar y system wresogi ac mae system larwm tân newydd wedi'i gosod ym mhob rhan o'r adeilad.

Mae'r ystafell gynadledda wedi'i marchnata a'i hyrwyddo i fusnesau allanol a defnyddiwyd y cyfleusterau'n helaethach yn enwedig yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2023.

Bydd y grŵp adeiladu yn parhau i gysylltu â Thomas Login ynglŷn â'r arolwg a'r cynlluniau gan fod y darn hwn o waith yn cael ei ariannu gan y loteri. Bydd unrhyw ddiweddariadau'n cael eu dosbarthu i'r rhoddwyr prynu brics ac mae bwrdd wedi'i osod yng nghegin yr adeilad yn nodi gwerthfawrogiad CFfI Cymru i bawb a roddodd gyfraniad i'r apêl prynu brics.






## Building Group

The building group has met with architects to discuss potential work which needs to take place on the building and has appointed Thomas Login to conduct a survey and compile plans. The group were keen to make the building safe for staff and visitors and make sure it is meeting all building safety requirements.

However, the organisation agreed that it was firstly important to prioritise the organisations finances and make sure adequate funding was in place for the movement to continue before any spend on the building was committed.

Essential work has been done to include painting of the kitchen and offices upstairs and external painting of the workshop door and booth doors. Maintenance work has been completed on the heating system and a new fire alarm system has been installed throughout the building.

The conference room has been marketed and promoted to external businesses and the facilities were used more extensively especially during the 2023 Royal Welsh Show.

The building group will continue to liaise with Thomas Login regarding the survey and plans as this piece of work is funded by the lottery. Any updates will be circulated to the buy a brick donors and a board has been erected in the kitchen area of the building noting Wales YFC's appreciation to all whom made a donation to the buy a brick appeal.



# Adroddiadau Ariannol / Financial Reporting

**Wales Federation of Young Farmers Clubs**

**Statement of Financial Activities**
**for the Year Ended 31st March 2023**

| | Notes | Unrestricted funds £ | Restricted funds £ | 31.3.23 Total funds £ | 31.3.22 Total funds £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCOME AND ENDOWMENTS FROM** | | | | | |
| Donations and legacies | 2 | 97,998 | 260,033 | 358,031 | 279,803 |
| **Charitable activities** | | | | | |
| General Events | | 7,357 | - | 7,357 | 162 |
| International | | 72,695 | - | 72,695 | 5,370 |
| Sports Day | | 30 | - | 30 | - |
| Rural affairs | | 10,280 | - | 10,280 | 500 |
| Young Peoples Village | | 126,796 | - | 126,796 | - |
| Royal Welsh Show | | 1,951 | - | 1,951 | 50 |
| Winter Fair | | 270 | - | 270 | 75 |
| Public speaking | | 110 | - | 110 | 110 |
| Entertainment Feast | | 1,099 | - | 1,099 | - |
| Eisteddfod | | 6,271 | - | 6,271 | 8,230 |
| Lamb Marketing | | 5,801 | - | 5,801 | 7,796 |
| Other trading activities | 3 | 35,142 | - | 35,142 | 10,310 |
| Investment income | 4 | 1,795 | - | 1,795 | 42 |
| **Total** | | 367,595 | 260,033 | 627,628 | 312,448 |
| **EXPENDITURE ON** | | | | | |
| Raising funds | 5 | 29,422 | 13,213 | 42,635 | 13,006 |
| **Charitable activities** | 6 | | | | |
| General Events | | 75,862 | 173,541 | 249,403 | 125,739 |
| AGM | | 767 | 1,880 | 2,647 | - |
| International | | 89,758 | 5,107 | 94,865 | 6,641 |
| Youth Forum | | 2,196 | 2,928 | 5,124 | 2,063 |
| Sports Day | | 2,662 | 3,014 | 5,676 | 1,472 |
| Rural affairs | | 24,905 | 23,644 | 48,549 | 9,279 |
| Training | | 437 | 289 | 726 | 110 |
| Marketing | | 8,432 | 23,108 | 31,540 | 41,332 |
| Young Peoples Village | | 256,624 | 1,369 | 257,993 | 8,683 |
| Royal Welsh Show | | 17,837 | 19,543 | 37,380 | 2,636 |
| Spring Festival | | 857 | 1,424 | 2,281 | 15 |
| Winter Fair | | 3,793 | 5,922 | 9,715 | 12,558 |
| Public speaking | | 2,450 | 3,501 | 5,951 | 9,762 |
| Field Day | | 4,755 | 8,015 | 12,770 | 2,132 |
| Entertainment Feast | | 8,070 | 3,465 | 11,535 | 293 |

**Wales Federation of Young Farmers Clubs**

**Statement of Financial Activities**
**for the Year Ended 31st March 2023**

| | Notes | Unrestricted funds £ | Restricted funds £ | 31.3.23 Total funds £ | 31.3.22 Total funds £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Eisteddfod | | 13,858 | 9,817 | 23,675 | 18,243 |
| Lamb Marketing | | 1,650 | - | 1,650 | 4,001 |
| Welsh Promotion | | - | - | - | 1,117 |
| **Total** | | 544,335 | 299,780 | 844,115 | 259,082 |
| **NET INCOME/(EXPENDITURE)** | | (176,740) | (39,747) | (216,487) | 53,366 |
| **RECONCILIATION OF FUNDS** | | | | | |
| Total funds brought forward | | 441,011 | 294,179 | 735,190 | 681,824 |
| **TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD** | | 264,271 | 254,432 | 518,703 | 735,190 |

# Fforwm Ieuenctid

Unwaith eto eleni, bu presenoldeb gan y Fforwm Ieuenctid o gwmpas adeilad CFfI Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru, gydag aelodau wrth y siop a gyda'r gliter gwyneb. Bu aelodau hefyd yn cynorthwyo Senedd Ieuenctid Cymru dros eu cyfryngau cymdeithasol a chynorthwyo DPJ Foundation mewn sesiwn i greu adnoddau i bobl ifanc.

Hoffai'r fforwm barhau i gyd-weithio gyda DPJ Foundation a Senedd Ieuenctid Cymru ac mewn trafodaethau i drefnu noson gyda'r ddau sefydliad, unwaith bydd aelodaeth y fforwm yn cryfhau, i ddangos pwysigrwydd y mudiadau a'r cyfleoedd sydd yn dod ohonynt.

Mae dwy daith wedi bod i aelodau iau'r mudiad eleni, un i Winter Wonderland ym mis Ionawr yng Nghaerdydd gyda 30 aelod yn mynychu a thaith dros nos i Aberystwyth, dan arweiniad Pwyllgor rhyngwladol, gyda 25 yn mynychu. Roedd yr aelodau iau wrth eu boddau ar y daith fferm ac yn gwneud ffrindiau newydd.



Cerys



Taith Aberystwyth

# Youth Forum

Once again this year, the Youth Forum had a presence around Wales YFC's building at the Royal Welsh Show, with members being at the shop and with face glitter. Members had also assisted Youth Parliament Wales with their social media and DPJ Foundation in a focus group session to create resources for young people.

The forum wishes to continue to work with the DPJ Foundation and Youth Parliament Wales and are in discussions to arrange an evening with both organisations, to show their importance and the opportunities that come along, once attendance of Youth Forum is stronger.

There have been two trips for the movements junior members this year, one to Winter Wonderland Cardiff in January with 30 members attending and an overnight trip in Aberystwyth, under International Committee's supervision, with 25 attending. The junior members were delighted on the farm tour and making new friends.



Winter Wonderland



Taith Fferm

## Noddwyr y Ffederasiwn | Federation Sponsors

Mae'r Ffederasiwn yn hynod o ddiolchgar am gefnogaeth noddwyr ein digwyddiadau a'n noddwyr corfforaethol, sy'n caniatau i'r Ffederasiwn barhau i ddarpau cyfleoedd i bobl ifanc cefn gwlad Cymru.

The Federation is extremely grateful to both our event and corporate sponsors that enable the Federation to continue providing opportunities to the young people of Rural Wales.

Dunbia
Dwr Cymru / Welsh Water
CCF
UAC / FUW

ABP
Castell Howell
NFU Cymru
JCP Solicitors
S4C

Wynnstay
Harper Adams University
Crystalyx
Bute energy

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall y mudiad eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

We are constantly looking for new sponsors who can support us through practical or financial support. The benefits the organisation can bring include coverage at our events and branding of various materials.

# Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
# Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023

# Wales Federation of Young Farmers' Clubs
# Annual Report 2022 - 2023

## Cysylltwch â'ch Ffederasiwn Sirol | Contact Your County Federation

**Brycheiniog | Brecknock**
01874 624889
brecknockyfc@gmail.com

**Sir Gar | Carmarthenshire**
01267 237693
sir-gar@yfc-wales.org.uk

**Ceredigion**
01570 471444
ceredigion@yfc-wales.org.uk

**Clwyd**
01978 790403
clwyd@yfc-wales.org.uk

**Eryri**
01286 677513
eryri@yfc-wales.org.uk

**Morgannwg | Glamorgan**
07779 331839
glamorgan@yfc-wales.org.uk

**Gwent**
01291 672602
gwent@yfc-wales.org.uk

**Meirionnydd**
01341 423846
meirionnydd@yfc-wales.org.uk

**Maldwyn**
01686 888023
office@yfc-montgomery.org.uk

**Sir Benfro**
01437 762639
sir.benfro@yfc-wales.org.uk

**Maesyfed**
01597 829008
office@radnoryfc.org.uk

**Ynys Mon**
01407 720256
ynys.mon@fc-wales.org.uk


Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
Wales Federation of Young Farmers' Clubs

Canolfan CFfI, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, Powys, LD2 3NJ
YFC Centre, Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3NJ

Rhif Ffon | Telephone: 01982 553502
E-bost | Email: gwybodaeth@yfc-wales.org.uk
Gwefan | Website: www.cffi-cymru.org.uk



Elusen Gofrestredig | Charity number: 1145230
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant | Company Limited by Guarantee: 7605068
Rhif TAW | VAT Registration Number: 681 7888 74

CFfI YFC CYMRU | WALES

www.cffi-cymru.org.uk